Ysgol Gymraeg
Melin Gruffydd, Caerdydd

Cofia ddysgu byw...

Cynllun Datblygu Ysgol

2023-24

Crynodeb Cyhoeddedig

"Cofia Ddysgu Byw"

Cynllun Datblygu Ysgol: Crynodeb

Hunanwerthuso ysgol: Trosolwg

Cryfderau:

- Mae rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u mannau cychwyn, a'u gallu. Mae hyn yn gyson ar draws y mwyafrif o ddosbarthiadau ac ar draws y camau cynnydd. Mae gan rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o'u cynnydd eu hunain mewn ystod o feysydd dysgu a phrofiad.
- Mae medrau gwrando a darllen bron bob disgybl ar draws y cwricwlwm yn dda iawn. Maent yn ymgysylltu'n ddwfn ac yn aml yn y profiadau dysgu hyn. Maent yn cydnabod gwerth y medrau hyn ac o ganlyniad maent yn gallu cyfathrebu a phrosesu er mwyn ymgysylltu'n arbennig â rhyngweithio yn yr ystafell ddosbarth ag athrawon a disgyblion eraill.
- Mae medrau siarad ac ysgrifennu rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws y cwricwlwm yn dda. Maent yn aml yn frwd dros ddefnyddio'r medrau hyn. O ganlyniad, gallant gyfathrebu'n dda a phrosesu eu dysgu er mwyn ymgysylltu'n llwyddiannus a rhyngweithio yn yr ystafell ddosbarth gydag athrawon a disgyblion eraill. Defnyddiant y medrau hyn yn annibynnol ac yn rheolaidd.
- Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws y cwricwlwm yn dda, gyda niferoedd cynyddol o feysydd rhifedd yn dangos perfformiad cryf. Maent yn cymhwyso eu medrau yn aml ar y lefel cywir.
- Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd o gam-drin corfforol a geiriol yn yr ysgol. Maen nhw'n magu hyder yn fawr. Maent yn deall sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet, gweithgaredd corfforol a lles emosiynol. Mae bron bob disgybl yn deall sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein.
- Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi. Mae ganddynt ddealltwriaeth a chymhwysiad rhagorol o ddibenion rheolau, gwobrau a sancsiynau yn yr ysgol. Mae ymddygiad disgyblion yn ystod cyfnodau egwyl a chinio yn rhagorol, gyda bron pob un yn ymddwyn yn gyson dda yn y cyd-destunau hyn, ac yn cefnogi eraill i ymddwyn yn dda hefyd.
- Mae profiadau dysgu o ansawdd uchel yn seiliedig ar lefel dda o her i ddysgwyr. Mae datblygiad dysgu trwy gyd-destunau dilys yn cael effaith gref a chadarnhaol iawn ar ansawdd y cwricwlwm. Mae llais / dylanwad dysgwr rheolaidd yn fwyfwy dylanwadol wrth lunio'r ddarpariaeth o ran uchelgais uchel.
- Mae mwyafrif o athrawon a staff yn defnyddio technegau cwestiynu priodol i annog a datblygu atebion disgyblion ymhellach, ac i fesur eu dealltwriaeth. Mae'r adborth llafar ac ysgrifenedig gan athrawon yn helpu mwyafrif y disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud, a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.
- Mae gan yr ysgol drefniadau arbennig i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol, fel y gallant ymgysylltu'n effeithiol iawn â'r ysgol ac elwa o'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig.
- Mae'r ysgol yn defnyddio partneriaethau â sefydliadau eraill, i ddarparu cefnogaeth arloesol o ansawdd uchel ac yn aml yn arloesol i ddysgwyr ag anghenion arbennig ac anghenion ychwanegol ehangach. Mae'r ysgol yn ymgysylltu â gwasanaethau asiantaethau arbenigol, yn enwedig i ddysgwyr sy'n wynebu rhwystrau sylweddol i ddysgu. Mae ansawdd ac effaith hyn yn barhaus ac yn gryf iawn
- Mae arweinwyr wedi datblygu tîm hynod effeithiol, ymroddedig o athrawon a chymorthyddion. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais mawr ar les staff trwy ystod eang iawn o ddulliau ar gyfer grwpiau ac unigolion. Mae staff yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

- Mae arweinwyr a rheolwyr yn modelu ac yn hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol yn dda. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at forâl uchel a gwelliannau yn yr ysgol. Mae cydweithredu rhwng staff, a gyda darparwyr eraill, yn arloesol, yn effeithlon ac yn hynod effeithiol

Meysydd i'w datblygu:

- Mae angen cynyddu y cyfleuoedd sydd gan y disgyblion I ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm
- Mae angen cysoni'r ffordd mae staff yn rhoi adborth i'r disgyblion.
- Mae angen sicrhau fod cynlluniau gwaith yn cynnwys yr holl elfennau mandadol.
- Mae angen parhau i ddatblygu, gweithredu, gwerthuso a mireinio'r cynllun i Gymru.

GWERTHUSO CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2022/2023	
Blaenoriaeth	**Gwerthusiad o'r cynnydd**
Codi Safonau Llafar ar draws yr Ysgol.	Mae'r gweithgareddau uchod wedi sicrhau bod pwyslais hafal ar weithgareddau llafar ar draws yr ysgol gyfan. Mae amserlenni dosbarth yn dangos bod cynllunio effeithiol a pwrpasol yn digwydd a bod lefel mwynhad disgyblion o weithgareddau llafar wedi gwella. Mae monitro llyfrau a trafod gyda disgyblion yn dangos bod y gweithgareddau llafar yn sicrhau dilyniant, ac maent yn bwrpasol i ddatblygu geirfa thematig cynhwysfawr.
Ysgol yn ymgorffori'r Cwricwlwm i Gymru Newydd yn yr holl feysydd.	Mae'r gwaith mapio uchod yn sicrhau bod Cwricwlwm Melin Gruffydd yn gyfredol ac yn unol a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'n sicrhau bod gan yr ysgol fethodoleg ar gyfer cynllunio cwricwlwm sy'n ymgorffori cyfleoedd ar gyfer dysgu ac yn blaenoriaethu elfennau trawsgwricwlaidd, lle y bo'n briodol.
Cynnydd disgyblion - Rhifedd -Rhesymu	Yn sgîl y gweithgareddau uchod gwelir bod effaith gadarnhaol ar safonau a chynnydd disgyblion wrth graffu ar lyfrau yn ystod y tymor yma. Gwelir hefyd wrth monitro amserlenni dosbarthiadau amrywiol bod ansawdd y ddarpariaeth ar cyfleoedd penodedig ar gyfer datblygu rhesymu wedi cynyddu ac yn digwydd yn wythnosol yn mron pob dosbarth.
Asesu	Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth yma mewn modd berthnasol. Mae asesu ac adborth wedi dayblygu ar lawr bron pob dosbarth a gwelwyd effaith gadarnhaol hyn wrth graffu ar lyfrau. Mae'r agwedd yn cael eu drin yn unol a datblygiadau'r Cwricwlwm ond mae gwaith i'w wneud o hyd. Dadansowydd canlyniadau'r profion cenedlaethol mwyaf diweddar ac mae pob dosbarth wedi dehongli'r data a rhoi ystyriaeth pwrpasol i'r canlyniadau wrth grwpio disgyblion ar lawr y dosbarth.
Cwricwlwm i Gymru - Celfyddydau Mynegiannol	Wrth weithio fel clwstwr ar Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol gwelir datblygiad proffesiynol effeithiol ar gyfer holl staff yr ysgol. Mae rhannu arfer ar draws y clwstwr wedi datblygu perthnasoedd cryf rhwng staff gan

	arwain at rwydwaith defnyddiol o weithwyr proffesiynol. Mae hyn wedi galluogi staff i ddarparu cyfleoedd cyson o ansawdd uchel ar draws y clwstwr.

BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2022 /2023		
Blaenoriaeth	**Camau Gweithredu**	**Cymorth**
Parhau i ddatblygu, gweithredu, gwerthuso a mireinio'r cynllun i Gymru.	I adolygu trefniadau cynllunio tymor hir, canolig a byr presennol er mwyn sicrhau fod yr athrawon yn cynllunio yn ôl y 4 diben a 6 maes dysgu a phrofiad yn unol a Chwricwlwm i Gymru.	Arweinydd Cwricwlwm i fynychu cyfarfodydd rhwydwaith fel y bo'n briodol. Dysgu proffesiynol priodol ar gyfer staff ar ddatblygiadau cwricwlwm i Gymru..
Cerrig Milltir Rhagfyr ● Adolygu trefniadau newydd cynllunio tymor hir, canolig a byr presennol er mwyn hyrwyddo addysgu effeithiol yn unol a Cwricwlwm i Gymru. ● Monitrio a chysoni systemau cynllunio'r ysgol. ● Cefnogi ymarferwyr i ddeall pa ffurf ddylai fod ar gynnydd dysgwyr ar eu taith drwy gydol y continwwm dysgu- gan gynnwys Glantaf. ● Sicrhau bod y pedwar diben dysgu yn cael sylw cyson wrth gynllunio ac yn ymarferol mewn dosbarthiadau. ● HMS Clwstwr er mwyn cysoni profiadau dysgu disgyblion ar hyd y continwm.	**Cerrig Milltir Mawrth** ● Cydweithwyr i strwythuro profiadau bywyd go iawn dilys o fewn ac ar draws ffiniau pynciau. ● Sicrhau bod pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael mynediad llawn at gyfleoedd ac yn cyflawni yn ein Cwricwlwm dywidiedig. ● Cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer staff er mwyn sicrhau Addysgeg effeithiol ym mhob dosbarth. ● Staff yr ysgol i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn creu cymunedau dysgu fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ein dysgwyr. ● Sicrhau bod arbenigedd a phrofiad staff yn cael eu datblygu'n barhaus a'u rhannu o fewn ac ar draws yr ysgol.	**Cerrig Milltir Gorffennaf** Arweinyddion y 6 maes yn datblygu ac yn sicrhau amrediad eang o brofiadau yn eu maes ac yn sgil hyn yn datblygu eu sgiliau arweinyddol. Sesiwn Gwricwlaidd yn cael ei trefnu i rannu gyda rhieni yr hyn mae'r disgyblion am ei ddysgu. Camau Cynnydd wedi eu mapio yn ein cylch dwy flynedd ac mae dilyniant yn sicrhau gweithgareddau adeiladol. Cynlluniau tymor hir, canol a byr yn datblygu'n dda sydd hefyd yn cynnwys llais y disgybl.
Parhau i ddatblygu darpariaeth a gwella safonau mathemateg a rhifedd ar draws yr ysgol	● Pob athro yn defnyddio cynllun FourMaths. ● Digon o adnoddau gan bob athro. ● Cynyddu'r cyfleoedd i gymhwyso medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. ● Gwerthuso a thracio cynnydd.	● Arweinydd Rhifedd i fynychu cyfarfodydd rhwydwaith fel y bo'n briodol. ● Dysgu proffesiynol priodol ar gyfer staff ar raglen a gofynion Rhifedd.
Cerrig Milltir Rhagfyr	**Cerrig Milltir Mawrth**	**Cerrig Milltir Gorffennaf**

• Dadansoddi'r canlyniadau a gafwyd yn yr Asesiadau Personol- Rhesymu Rhifedd-yn Haf 2023 • Trafodaethau cyson gyda athrawon er mwyn gwerthuso safon 'addysgu Rhesymu/Rhifedd' er mwyn sicrhau bod gwahaniaethu yn soffistigedig iawn ac yn ymestyn neu cynorthwyo dysgwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn cael addysg effeithiol. • Hyfforddiant HMS Clwstwr er mwyn sicrhau systemau pontio effeithiol 6/7 ar gyfer Haf 2024 • Prynu adnoddau a fydd o gymorth wrth ddatblygu Rhesymu	• Perfformiad y disgyblion i gael ei fonitro o wythnos i wythnos o fewn y gweithgareddau Rhesymu- asesu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i nodi anghenion dysgu pob dysgwr • Arweinyddion i gydweithio a chysoni Rhifedd a Rhesymu ar draws y clwstwr. • Plant i eistedd asesiadau personnol rhesymu ar Hwb • Cynllunio'n cael ei fonitro- Staff yn cyflwyno mwy o dasgau ymresymu rhifyddol a gweithgareddau i blant ddefnyddio a chymhwyso eu mathemateg ar draws y cwricwlwm drwy themâu trawsgwricwlaidd. • Sicrhau bod gwersi yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymestyn eu hunain a manteisio ar sgiliau blaenorol wrth geisio datblygu sgiliau newydd. • Sicrhau cysondeb a dealltwriaeth ar draws y clwstwr o sut mae cyfrifo'n digwydd- yr ysgol i fabwysiadu cynlluniau cytun er mwyn bwydo at pontio effeithiol 6/7	Annog parodrwydd i ddatblygu a chymhwyso technegau newydd yn staff yr ysgol wrth addysgu Mathemateg/ Rhesymu. Dadansoddi canlyniadau profion yr Haf a dod i gasgliad ar effeithiolrwydd a llwyddiant y strategaethau roddwyd ar waith. Gweithredu systemau pontio effeithiol 6/7 a gytunwyd arnynt Hydref 2023 Gorffen y flwyddyn academaidd 2024 gyda gweledigaeth clir fel clwstwr ar gyfer Rhifedd a Mathemeateg.
Datblygu Ymagweddau effeithiol wrth asesu sy'n gwella addysgu a dysgu.	• Gweithdrefnau asesu yn gyson ar draws yr ysgol.	• Hyfforddiant satff cyfan gan Arweinydd Asesu, Dirprwy a Pennaeth
Cerrig Milltir Rhagfyr • Uwch dim i adolygu amserlen asesu'r ysgol • GJ a JW i dderbyn hyfforddiant rhaglen TRACIWR • Cyflwyniad i'r staff am sut bydd y rhaglen TRACIWR yn gweithredu o fewn yr ysgol. • Casglu data meintiol dechrau tymor a'i mewnbynnu i raglen TRACIWR trwy ddefnyddio 'data captures' • Asesiadau Personol • Sillafu CYM / SAES • CANN Mathemateg	**Cerrig Milltir Mawrth** • Cyflwyno strategaeth "Symud ymlaen / edrych ymlaen" effeithiol ar gyfer llythrennedd. • Tim asesu i fonitro'r defnydd o arferion asesu ffurfiannol • Asesu cyfoedion • Hunan asesu • Adborth effeithiol i helpu disgyblion i ddeall beth maent wedi'i wneud yn dda, beth mae angen iddynt ei wneud nesaf, a sut i'w wneud. • Dwy Seren a Dymuniad (wedi ei neud yn dda) • Pit Stops • Gwyrdd gwella/pinc perffaith	**Cerrig Milltir Gorffennaf** Creu Fforwm Arweinwyr Asesu i rannu arfer da er mwyn cysoni ar lefel clwstwr. Holiadur staff ar ddiwedd Tymor yr Haf i ganfod eu barn ar y system newydd a'i ddealltwriaeth o arfer da ASESU (defnyddio'r ddogfen CANLLAWIAU - Systemau addysgu a dysgu staff MG fel man cychwyn) Cynllunio ffordd effeithiol o rhannu'r ffordd ymlaen i ddysgwyr a'i rhannu gyda rhieni wrth drosglwyddo'i

● Asesiadau Di-eiriol bl.2/4/6	● Cyfleoedd i athrawon monitro arfer da o fewn dosbarthiadau eraill. ● Monitro cyfarfodydd cynnydd grwpiau targed disgyblion trwy ddefnyddio data meintiol asesiadau Personol Ionawr trwy raglen Traciwr. ●	canlyniadau asesiadau personol.
Sut allwn ni gyfoethogi cwricwlwm yr ysgol trwy fapio ymhellach yr agweddau trawsgwricwlaidd mandadol	● Penodi arweinyddion Cyfnod allweddol a MDPh ● Cyfarfodydd arweinwyr canol rheolaidd wedi'u trefnu. ● Arweinwyr canol i dderbyn sesiynau hyfforddi rheolaidd	● Cydweithio yn effeithiol gyda'r Clwstwr ac Awdurdod Lleol ar priosectau cytun.
Cerrig Milltir Rhagfyr ● Sicrhau bod arweinydd ar gael ar gyfer pob un o'r agweddau mandadol trawsgwricwlaidd ar gyfer 2023-2024 ● FD Mynychu cyfarfod rhwydweithio Arweinwyr Iechyd a Lles consortiwm i dderbyn y newyddion diweddaraf. ● FD mynychu Rhwydwaith Ysgolion Cymraeg Caerdydd ACRh i ddechrau mapio a chynllunio ar y cyd. ● Cynnal cyfarfod staff lle bydd staff yn taflu syniadau ar gyfer meysydd posib o fewn yr agweddau trawsgwricwlaidd	**Cerrig Milltir Mawrth** ● Athrawon wedi cwblhau proffil 'Motional' ar y disgyblion. ● Gweithdai gan asiantaethau allanol wedi bod neu wedi'i bwcio- NSPCC, Spectrwm, Show Racism the Red Card, DARPL ● Arweinyddion wedi neu wedi bwcio hyfforddiant penodol ar eu hagweddau. ● Adolygu Trosolwg Cynllunio Canolig Gwanwyn i sicrhau bod y prosiectau ysgol gyfan yn cynnwys ystod o amrywiaeth gan gynnwys hil, cefndir ethnig, credoau, rhywioldeb, anableddau ● UDRh i gynnal Taith gerdded yn ffocysu ar weithgareddau traws gwricwlaidd ● Cwblhau Hunan Werthusiad WSAEMW ●	**Cerrig Milltir Gorffennaf** Ail-asesu y proffiliau 'Motional' ar gyfer gwaelodlin blwyddyn nesaf. Creu arolwg o'r cyfleoedd ABCh ma'r disgyblion wedi'i derbyn eleni. Cymryd rhan yn holiadur SHRN (School Health Research Network) , dadansoddi'r canlyniadau a chreu cynllun gweithredu ar y canlyniadau.